**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

372/51

# ECONOMEG – EC2

P.M. DYDD GWENER, 9 Mehefin 2006

(1 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**


Mae **un** cwestiwn gorfodol yn y papur hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.
Atgoffir chi bod rhaid cyflwyno atebion clir, trefnus a graenus eu hiaith.

Astudiwch y wybodaeth ar dudalennau 2 a 3 ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

# Prisiau olew olewydd i saethu i fyny wrth i sychder roi ergyd i gnydau



Mae sychder chwilboeth yn Sbaen wedi achosi i brisiau olew olewydd godi wrth i ffermwyr yn y wlad sy'n cynhyrchu fwyaf yn y byd amcangyfrif y gallai'r cynhaeaf eleni ostwng bron 30%. Nodwyd pris ar gyfer olew olewydd o 3,000 ewro am bob tunnell fetrig ($3,643), rhyw 20% yn uwch na'r pris flwyddyn yn ôl wrth i effeithiau cyfunol rhew ac yn awr sychder ddifetha'r cnwd.

"Ni fydd defnyddwyr yn talu'r prisiau hynny... Mae terfyn *(limit)* i bopeth," meddai Oscar Lopez, gweinyddwr marchnad mewn cyfnewidfa olew olewydd. Mae masnachwyr yn tybio pan fydd prisiau deirgwaith i bum gwaith yn uwch na phrisiau olew blodau haul, y bydd defnyddwyr yn dechrau troi at yr amnewidyn *(substitute)* rhatach.

Hyd yma nid yw hynny wedi digwydd gyda'r galw'n gryf iawn, yn rhannol oherwydd bod potelwyr olew olewydd yn dymuno cadw stociau mawr gan fod cymaint o ansicrwydd yn y farchnad. Yn ogystal, mae defnyddwyr yn sylweddoli buddion iechyd y cynnyrch yn eu diet. Mae'r diwydiant olew olewydd yn amcangyfrif bod pobl yn defnyddio mwy o olew olewydd bob blwyddyn. Yn ôl dadansoddwyr diwydiant, mae'r farchnad yn gadarn iawn gyda galw'n cynyddu'n gyson.

Caiff olewydd eu tyfu ar dir annyfredig *(unirrigated)* ac felly maent yn dibynnu ar y tywydd am ddŵr. Eleni, cyrhaeddodd glawiad yn Sbaen ei lefel isaf ers i gofnodion ddechrau yn 1947. Yn ystod y gaeaf diwethaf, fe wnaeth rhew ddinistrio tua 4% o'r cnwd, ac er bod rhai o'r coed wedi cael eu hailblannu ni fyddant yn dwyn ffrwyth am bum mlynedd o leiaf. Mae Sbaen yn defnyddio tua 600 000 o dunelli metrig o olew olewydd ac mae'n allforio'r gweddill, yn bennaf i'r Eidal. Yr Eidal sydd yn ail ar restr cynhyrchwyr mwyaf y byd a Groeg sydd nesaf.

Mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn darparu cymorth ariannol i gynhyrchwyr olew olewydd ond cyflwynwyd diwygiadau newydd yn 2004. Mae Polisi Amaethyddol Cyffredin *(CAP)* yr UE yn cyflwyno tâl i ffermwyr sy'n torri'r cyswllt rhwng y symiau sy'n cael eu talu i gynhyrchwyr olew olewydd a'u lefel cynhyrchu. Polisïau eraill a allai fod wedi cael eu hystyried yw cynllun stoc clustogi *(buffer stock scheme)* yn cael ei weithredu gan y tri phrif gynhyrchydd yn yr UE neu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Fodd bynnag, mae'r UE dan bwysau gan Gyfundrefn Masnach y Byd *(World Trade Organisation)* i ostwng prisiau gwarantiedig a chymorthdaliadau allforion er mwyn dod â phrisiau amaethyddol yr UE yn agosach at y prisiau sydd i'w cael mewn marchnadoedd byd-eang.

*© Christine Seib/The Times, Llundain, 25 Gorffennaf 2005*

*(a)* Diffiniwch elastigedd pris cyflenwad a defnyddiwch y data i roi sylwadau ar elastigedd pris cyflenwad cynhyrchu olew olewydd. [6]

*(b)* Gyda chymorth diagram, eglurwch sut y gwnaeth newidiadau yn amodau galw a chyflenwad achosi i brisiau olew olewydd godi yn 2004. [8]

*(c)* Sut y gallai gostyngiad mewn cynhyrchu olew olewydd effeithio ar economi Sbaen? [8]

*(ch)* Rhowch sylwadau ar berthynas croeselastigedd galw rhwng olew olewydd ac olew blodau haul. [6]

*(d)* Gan ddefnyddio'r data, trafodwch y farn y dylai'r Undeb Ewropeaidd adael pris olew olewydd a chynhyrchu olew olewydd i'r farchnad rydd yn hytrach na gosod isafbrisiau *(minimum prices)* gwarantiedig. [12]